**NEWIDIADAU MEWN IECHYD A MEDDYGAETH, tua 1340 hyd heddiw**

**YMHELAETHU AR Y CYNNWYS I WELLA'R YMDRINIAETH O BERSBECTIF CYMREIG**

Noder mai awgrymiadau yn unig yw'r enghreifftiau hyn. Anogir athrawon i ddefnyddio enghreifftiau o'r rhestr hon ynghyd ag unrhyw enghreifftiau lleol priodol eraill.

| **Thema** | Achosion o afiechyd a chlefydau |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Amodau byw yn yr Oesoedd Canol gan gyfeirio at y Pla Du |
| **Persbectif Cymreig** | Amodau byw mewn pentrefi canoloesol yng Nghymru (e.e. Cosmeston); y Pla Du yng Nghil-y-Coed, Caerfyrddin, Hwlffordd a Threffynnon |

**Cosmeston**

Tyfodd pentref Cosmeston o amgylch maenordy ag amddiffynfeydd a adeiladwyd gan deulu De Costentin ar ddechrau'r ddeuddegfed ganrif. Marchogion Normanaidd oedd y De Constetin a oedd wedi dod i Brydain gyda Gwilym Goncwerwr ac yna wedi symud ymlaen i oresgyn Cymru gyda Robert Fitzhamon.

Enw'r pentref oedd Costentinstune, ar ôl teulu Arglwydd cyntaf y Faenor a'r rhan o Ffrainc yr oedden nhw'n tarddu ohoni, ond dros y blynyddoedd newidiwyd yr enw yn sgil yr ynganiad lleol. Yn y diwedd daeth y pentref i gael ei adnabod fel Cosmeston.

Roedd y tai wedi'u hadeiladu o garreg gyda thoeau gwellt trwchus. Roedd tua 100 i 200 o bobl yn byw yn Cosmeston, yn ffermwyr a physgotwyr, ond byddai poblogaeth deithiol wedi bod yno hefyd, gweithwyr a oedd yn dod i wneud tasgau penodol ar adegau penodol o'r flwyddyn, a gallai hyn fod wedi gwthio poblogaeth y pentref i dros 200.

**Y Pla Du**

Daeth y pla i Gymru gyntaf yn 1349, gan ddifa pentrefi cyfan a gwneud niwed mawr i economi'r wlad gyfan. Amcangyfrifir iddo ladd o leiaf chwarter y boblogaeth yn ystod yn flwyddyn.

Hyd yn oed os na laddodd y pla unrhyw un o drigolion Cosmeston - ac nid oes tystiolaeth y naill ffordd na'r llall - byddai'n sicr wedi creu prinder enbyd o weithwyr mewn cymunedau mwy fel Caerdydd. Byddai cael eu temtio gan gyflog uwch wedi denu nifer i symud i mewn i'r trefi.

Nid oedd gweithio'r tir o amgylch Cosmeston fyth yn hawdd. Mae'r tir yn gorwedd yn isel, ac er bod ffosydd neu gloddiau draenio'n cael eu cloddio a'u hymestyn yn gyson, mae'n debyg fod y tir âr o amgylch y pentref wedi dioddef llifogydd lawer gwaith. Roedd gwaith haws ar gael mewn llefydd fel Caerdydd. Dim rhyfedd fod Cosmeston wedi mynd yn enghraifft berffaith o bentref a adawyd.

**Y Pla Du a Chil-y-Coed**

Yn 1348 cyrhaeddodd y Pla Du yn Lloegr ac yn Ebrill 1349 cofnodwyd yr achos cyntaf o'r pla

yng Nghymru. Daeth yma gan deithwyr o dde Lloegr oedd yn cyrraedd Cymru dros y môr.

Yn 1349 ac eto yn 1361 tarodd y Pla Du Gil-y-Coed, gan ddifrodi'r pentref. Yn ôl cofnodion y faenor, ni ellid dod o hyd i neb i wasanaethu fel beili (pennaeth y pentref) gan fod y bileiniaid i gyd wedi marw.

Roedd y casglwyr tollau yng Nghaerfyrddin, porthladd pwysig ar y pryd, ymhlith y dioddefwyr cyntaf ond yn fuan lledaenodd y clefyd ar draws yr holl wlad. Cafodd Cil-y-Coed ei daro'n wael, felly hefyd trefi Penfro a Hwlffordd yng ngorllewin Cymru. Cafodd mwynwyr plwm Treffynnon, cymuned glos, eu dinistrio bron yn gyfan gwbl.

Roedd y symptomau yn amlwg: chwyddo o dan y ceseiliau, cur pen ofnadwy, briwiau a oedd yn torri allan yn frech ac yna marwolaeth. I ddechrau, yn haf 1349, cafodd Cymru ei anrheithio gan fersiwn linorog y pla ond wrth i'r gaeaf gyrraedd, torrodd y fersiwn niwmonig yn y cymunedau gwledig. Erbyn i'r clefyd farw allan amcangyfrifir fod rhai pentrefi wedi colli cynifer ag 80% o'u trigolion.

Fodd bynnag, roedd y Pla Du yn drychineb i gynifer o bobl Cymru. Erbyn diwedd y 14eg ganrif roedd poblogaeth y wlad wedi gostwng o gyfanswm o 300,000 i dan 200,000, gostyngiad o tua 100,000 o bobl. Roedd hynny i gyd bron o ganlyniad i'r Pla Du.

**Y Pla Du a Llanfair ym Muallt**

Cyrhaeddodd yr afiechyd y dref farchnad fechan hon tua 1350 a rhoddwyd pobl y dref mewn cwarantin. Roedd pobl o'r wlad o amgylch yn gadael bwyd i'r trigolion ar lannau nant fechan ar gyrion y dref. Byddai pobl y dref yn taflu arian i mewn i'r nant i dalu am y nwyddau hyn. Byddai'r dŵr yn glanhau'r arian, gan atal yr afiechyd rhag lledaenu. O ganlyniad, cafodd y nant yr enw 'Nant yr Arian'.

Golygodd nifer uchel y rhai a fu farw o'r Pla Du nad oedd digon o bobl ar ôl i weithio'r tir yng nghefn gwlad. Yn ardal Llanrhystud yng Ngheredigion, dim ond 7 allan o 104 o weithwyr a oroesodd.

Roedd yr achos diwethaf yn Hwlffordd yn 1652, a bu farw tua 300 o'r boblogaeth o 2,500 mewn 6 mis.

| Thema | Achosion o afiechyd a chlefydau |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Effeithiau diwydiannu: colera a theiffoid |
| **Persbectif Cymreig** | Epidemigau colera ym Merthyr Tudful a Chaerdydd, 1848/49 |

**Epidemigau colera ym Merthyr Tudful a Chaerdydd, 1848/49**
Roedd epidemig 1849/49 yn ddifrifol iawn a bu farw dros 3,000 o bobl yn sir Forgannwg
Digwyddodd achos cyntaf y colera yn epidemig 1849 yng Nghaerdydd, gyda'r gyfradd farwolaethau yn codi i 135 ym mis Mehefin. Yna lledaenodd y clefyd i Gasnewydd; gwelwyd achosion yn Aberystwyth hefyd. Fodd bynnag, ym Merthyr Tudful y cafwyd y colledion mwyaf gydag uchafbwynt o 349 o farwolaethau ym mis Mehefin.
O fewn y dref, digwyddodd dwy ran o dair o'r marwolaethau ym Merthyr Uchaf, a oedd â'r lefelau uchaf o dlodi a thai gorlawn. Rhoddodd epidemig y colera deimlad o frys i'r angen i wneud gwelliannau iechydol ar draws Cymru. Yn dilyn Deddf Iechyd Cyhoeddus 1848, sefydlwyd Byrddau Iechyd lleol a swydd newydd Swyddogion Iechyd Meddygol (MOHs). Deddf alluogol oedd hon yn hytrach nag un orfodol ac roedd ei gweithredu yn dibynnu ar gamau'r cymunedau lleol.
Ychydig o arweiniad oedd yn dod gan y llywodraeth ganolog ac roedd pwerau yn gyfyngedig. Gwnaeth tua 17 o drefi yn Ne Cymru gais i ffurfio Byrddau Iechyd tua amser yr epidemig colera, yn eu plith Caerdydd ac Abertawe yn 1848, Merthyr Tudful yn 1850, Aberdâr yn 1854 a Maesteg yn 1858. Fe lwyddon nhw i gyd i wneud rhywfaint o welliant mewn glanweithdra, ond roedd pa mor effeithiol oedd y diwygiadau yn dibynnu'n fawr ar gydbwyso buddiannau lleol.
Ym Merthyr Tudful, er gwaethaf rhywfaint o wrthwynebiad gan y meistri haearn lleol a oedd yn poeni am ddiogelu eu hanghenion dŵr diwydiannol eu hunain, sefydlwyd cyflenwad dŵr cyhoeddus. Cwblhawyd cronfa ddŵr yn 1863, a gosodwyd peipiau carthffosiaeth o dan ddaear.

| **Marwolaethau o'r colera, 1849** | |
|---|---|
| Merthyr Tudful a'r cyffiniau | 1682 |
| Caerdydd | 396 |
| Abertawe | 262 |
| Castell Nedd | 245 |
| Casnewydd | 209 |
| | |

Yn lleol dioddefodd Treffynnon a'r Fflint. Yna lledaenodd y clefyd i bentrefi Llaneurgain a Helygain.

Cwestiwn Arholiad
**Disgrifiwch yr amodau byw mewn trefi diwydiannol fel Caerdydd wnaeth arwain at achosion o'r clefyd colera yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. [6]**
*Mae'n bosibl disgrifio amodau byw mewn trefi diwydiannol fel Caerdydd drwy gyfeirio at sawl nodwedd hanesyddol; y cynnydd aruthrol yn y boblogaeth yng Nghaerdydd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; yn 1831, roedd 6,137 o bobl yn byw yng Nghaerdydd; erbyn 1849, roedd 16,000 o bobl yn byw yng Nghaerdydd; yn yr 1840au, roedd gan Gaerdydd broblemau cymdeithasol a phroblemau iechyd y cyhoedd difrifol o ganlyniad i'r cynnydd cyflym yn y boblogaeth; nid oedd digon o dai ar gael ac arweiniodd hynny at orlenwi; roedd iechydaeth yn wael iawn wrth i bobl ddefnyddio afon Taf a Chamlas Morgannwg er mwyn cael dŵr yfed ac er mwyn gwaredu carthion; golygai'r amodau gorlawn ac aflan hyn fod clefydau'n lledaenu yn gyflym iawn ymhlith y boblogaeth.*

| Thema | Gwybodaeth feddygol, atal a thrin afiechydon a chlefydau |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Datblygiadau ym maes gwybodaeth feddygol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg |
| **Persbectif Cymreig** | Gwaith meddyg esgyrn (e.e. ar Ynys Môn a Rocyn Jones yn Rhymni) a chysylltiadau â dechreuad orthopaedeg |

Yn y 18fed ganrif, rywbryd rhwng 1743 a 1745, daeth plentyn rhyfedd oddi ar long oedd wedi dryllio, na allai siarad gair o Gymraeg na Saesneg, i'r lan ar Ynys Môn. Cafodd ei achub gan smyglwr o'r enw Dannie Luke, o'r Ynys.

Helpodd y plentyn hwn i chwyldroi meddygaeth Orllewinol gyda sgiliau gosod esgyrn nas gwelwyd erioed o'r blaen.

Byth ers hynny, mae o leiaf un ym mhob cenhedlaeth o'i ddisgynyddion wedi gweithio ym maes orthopaedeg, gyda'i or-or-ŵyr yn mynd ymlaen i achub degau o filoedd o fywydau ar y ffrynt orllewinol yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mabwysiadodd meddyg lleol un o'r bechgyn a'i enwi'n Evan Thomas. Dechreuodd y bachgen gymryd diddordeb yng ngwaith y meddyg, a chyn hir roedd yn dangos fod ganddo fedr anhygoel.

Roedd Evan Thomas yn defnyddio cyffyrddiad yn unig, i ddechrau ar anifeiliaid oedd wedi'u clwyfo, i deimlo ble roedd yr esgyrn wedi torri, a byddai'n symud yr ymylon i'w lle'n ofalus er mwyn sicrhau uniad gwell pan oedd y toriad yn dechrau asio.

Ef hefyd oedd y cyntaf i ddefnyddio tyniant a sblintiau i wahanu ymylon toriadau oedd yn gorgyffwrdd, a chadw aelodau'r corff yn llonydd er mwyn iddyn nhw gael gwella.

Nid oedd neb wedi clywed am y technegau hyn yn ei ddydd, ond maen nhw'n parhau i fod yn sail i lawfeddygaeth orthopaedig hyd heddiw.

Daeth ei or-ŵyr, Hugh Owen Thomas, i sylw byd-eang fel "tad orthopaedeg fodern".

Hugh Owen Thomas oedd y cyntaf o'i deulu i gael ei hyfforddi fel meddyg, ac ef ddyfeisiodd Goler Thomas i drin osteo-twbercwlosis, tyndro Thomas i leihau datgymaliad, a sblint Thomas, a fu'n gymorth mawr i leihau marwolaethau gan doriadau ffemwr ymhlith docwyr Lerpwl ar ddiwedd y 19eg ganrif.

**Rocyn Jones** (1822 - 1877)

Roedd ei dad yn adnabyddus am drin clefydau anifeiliaid yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro. Roedd Rocyn yn helpu ei dad a chymerodd ddiddordeb arbennig yn y gwaith milfeddygol. Wrth i'w brofiad dyfu, dechreuodd ddefnyddio'r wybodaeth a gafodd gydag anifeiliaid i drin anafiadau dynol. Yn raddol cynyddol ei lwyddiant fel meddyg esgyrn gymaint fel y rhoddodd y gorau i drin anifeiliaid.

Symudodd i Sir Fynwy a setlo yn Rhymni. Adeiladodd ei bractis ac roedd ei sgiliau'n denu cleifion o bob cwr o Dde Cymru. Roedd yn fedrus wrth drin toriadau, datgymaliadau ac anafiadau cyhyrau. Dyfeisiodd sblintiau pren wedi'u cerfio gyda darn troed, moldiodd sblintiau *gutta percha* ar gyfer gorffwys y llaw ac ymestyn y corff mewn achosion o barlys ac anafiadau gewyn difrifol. Gwnaed hyn i gyd o leiaf hanner canrif cyn iddyn nhw ddod yn rhan gyffredin o driniaeth broffesiynol.

| **Thema** | Gwybodaeth feddygol, atal a thrin afiechydon a chlefydau |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Gwell gwybodaeth am y ddamcaniaeth germau |
| **Persbectif Cymreig** | Rôl JW Power, swyddog meddygol iechyd Glyn Ebwy yn sefydlu cyrsiau ar facterioleg e.e. Caerdydd, 1898 |

Awgrymodd Swyddog Meddygol Iechyd Glyn Ebwy, Dr J.W.Power, y dylid trefnu cyrsiau mewn bacterioleg i swyddogion iechyd, ac yn 1886 sefydlwyd un yng Ngholeg y Brenin, Llundain.
Yn 1898 sefydlwyd labordy iechyd cyhoeddus yng Nghaerdydd, wedi’i gyd-ariannu gan Gyngor Sir Morgannwg a Dinas Caerdydd. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd Cymru wedi gweld trawsnewid mawr. Roedd y mudiad iechydaeth a diwygiadau iechyd cyhoeddus wedi bod yn gyfrwng i leihau effeithiau gwaethaf diwydiannu cyflym a gwella iechyd y bobl. Roedd Cymru’n dechrau datblygu dull gwyddonol modern o ganfod a rheoli afiechydon, creu sefydliadau newydd, a dechrau hyfforddiant ac ymchwil ym maes iechyd.

| **Thema** | Gwybodaeth feddygol, atal a thrin afiechydon a chlefydau |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Darganfod DNA ac ymchwil genetig ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif |
| **Persbectif Cymreig** | Gwaith Martin Evans ar gelloedd bonyn |

Biolegydd o Loegr yw Martin Evans, a anwyd ar 1 Ionawr 1941 yn Stroud, Sir Gaerloyw. Gyda Matthew Kaufman, ef oedd y cyntaf i feithrin **celloedd bonyn** o embryo llygoden a’u tyfu mewn labordy yn 1981. Gall ei waith gael ei addasu ar gyfer amrywiaeth eang o ddibenion meddygol. Erbyn hyn mae ei ddarganfyddiadau’n cael eu defnyddio yn bron bob agwedd o fiofeddygaeth – o ymchwil sylfaenol i ddatblygu therapïau newydd.

Yn 2007 cafodd Syr Martin Evans ei anrhydeddu â Gwobr Nobel mewn Meddygaeth am ei ddarganfyddiadau arloesol.

| **Thema** | Gwybodaeth feddygol, atal a thrin afiechydon a chlefydau |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Triniaethau traddodiadol oedd yn gyffredin yn yr oesoedd canol |
| **Persbectif Cymreig** | Lle meddygwr y tŷ yng Nghyfraith Hywel Dda, gyda chyfraddau talu am driniaethau; ffynhonnau iachaol (e.e. Ffynnon Gwenffrewi, Treffynnon) |

Crëwyd cyfreithiau Hywel Dda yn y 10fed ganrif. Roedd y meddygwr yn un o 26 o swyddogion a enwyd yr oedd eu hawliau a’u dyletswyddau cyfreithiol yn cael eu disgrifio yng nghyfreithiau Hywel Dda. Mae meddygwr y llys yn eistedd nesaf at bennaeth y teulu yn y neuadd. Mae’n cael ei dir am ddim, ac yn cael ceffyl yn rheolaidd gan y brenin. Mae’n paratoi meddyginiaethau i’r teulu am ddim ac i wŷr y llys.

Ffynnon Sanctaidd yw Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon, Sir y Fflint. Uchelwraig Gymreig chwedlonol o’r 7fed ganrif oedd Gwenffrewi a gafodd ei gwneud yn sant. Yn ôl y chwedl, yn y flwyddyn 660 O.C., torrodd pendefig lleol oedd wedi gwylltio ben y Wenffrewi ifanc i ffwrdd wedi iddi hi wrthod ei sylw cariadus. Cododd ffynnon o’r ddaear yn y fan lle syrthiodd ei phen, ac wedyn cafodd ei hadfer yn ôl i fywyd gan ei hewythr, Sant Beuno. Mae ffynnon iachaol ar safle ei marwolaeth bellach yn gysegr ac yn safle i bererinion, a

| |
|---|
| adnabyddir fel Lourdes Cymru. |

| **Thema** | Gwybodaeth feddygol, atal a thrin afiechydon a chlefydau |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Meddyginiaethau llysieuol traddodiadol |
| **Persbectif Cymreig** | Meddygon Myddfai |

Meddygon llysiau oedd Meddygon Myddfai, oedd yn byw ac yn gweithio o amgylch pentref Myddfai yn Sir Gaerfyrddin yng ngorllewin Cymru.

Roedd Rhiwallon Feddyg a'i dri mab yn feddygon llys i Arglwydd Dinefwr yn ystod y 13eg ganrif. Byddent yn ysgrifennu eu triniaethau a'u meddyginiaethau er mwyn eu rhannu ag eraill.

Roedd y meddyginiaethau'n cael eu gwneud o gynnyrch naturiol yn unig, dros 170 ohonynt, oedd yn tyfu'n lleol yn ardal Myddfai. Roedd llawer o'r meddyginiaethau'n cael eu gwneud o'r perlysiau a'r planhigion roedden nhw'n casglu yn y cloddiau o amgylch Myddfai. Byddent yn malu'r perlysiau gyda phestl a mortar, yna'n ychwanegu dŵr berwedig i wneud diodydd llysieuol, neu'n eu cymysgu ag olew planhigion i wneud eli.

Roedden nhw'n cynnwys triniaethau ar gyfer pethau fel cur pen, llosg haul, chwyddiadau a phoen yn y coesau, peswch a thisian. Dywed rhai, gyda rhywfaint o gyfiawnhad, y gellir olrhain dechreuad meddyginiaeth fodern yn ôl i Feddygon Myddfai.

Sefydlodd a noddodd yr Arglwydd Rhys fynachlog newydd yn Ystrad Fflur tua 1177. Yr enw Lladin a roddwyd arno oedd *Strata Florida* sy'n golygu haenau o flodau a chyn hir, roedd y fynachlog wedi dod yn ganolfan gwella â pherlysiau.

Mae chwedl Llyn y Fan Fach a Meddygon Myddfai yn tarddu o'r cyfnod hwn, adeg o syniadau newydd a datblygiad diwylliannol mawr, nid yn unig yng Nghymru ond dros Brydain gyfan. A dros y blynyddoedd cafodd gwybodaeth y meddygon hyn, eu doniau iachaol a'u meddyginiaethau, eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall.

Tra bod y mynachlogydd mewn llefydd fel Ystrad Fflur a Thalyllychau yn parhau â'u gwaith, daeth Myddfai yn enwog hefyd fel canolfan cymorth meddygol. Roedd pobl o bob cwr o'r wlad yn dod i chwilio am driniaethau a help ar gyfer anhwylderau, ac roedd galw cyson ar y meddygon - nid yn unig i bobl oedd ag arian ond i bobl gyffredin hefyd. Am dros 100 mlynedd roedd pentref Myddfai yn lle o ddysg a rhagoriaeth yn y gwyddorau iachaol.

| Thema | Gwybodaeth feddygol, atal a thrin afiechydon a chlefydau |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Triniaethau Traddodiadol |
| **Persbectif Cymreig** | Dynion Hysbys – dynion doeth a’r defnydd o swyn dlysau |

Ystyr dyn hysbys yw dyn doeth. Roedd y cymeriadau hyn yn gyffredin iawn yng Nghymru ar un adeg, ac roedd eu gwasanaethau’n amrywio o atal dewiniaeth, iachau, ac astroleg, i ddweud ffortiwn a dod o hyd i eiddo coll.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a’r ugeinfed ganrif, roedd Llangurig yn arbennig o enwog am ei dynion hysbys. Roedd swynion yn erbyn dewiniaeth yn cael eu hysgrifennu ar ddarn o bapur a oedd yn cael ei rolio’n ofalus a’i selio mewn potel. Roedd hon wedyn yn cael ei gosod o dan yr aelwyd neu yn cael ei chuddio yn un o’r prif drawstiau yn y tŷ, ac felly’n sicrhau amddiffyniad rhag dewiniaeth ac unrhyw ddrwgweithredwr arall.

| Thema | Gofal cleifion ac iechyd y cyhoedd |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Rôl yr eglwys a’r mynachlogydd o’r oesoedd canol hyd ganol yr unfed ganrif ar bymtheg |
| **Persbectif Cymreig** | Clafdai mewn mynachlogydd e.e. Tŷ’r Brodyr Ffransisgaidd, Caerfyrddin; Abaty Tyndyrn; ysbyty Marchogion Sant Ioan (urdd y marchogion ysbytaidd) ar lwybr y pererinion yn Ysbyty Ifan |

Roedd yr eglwys Gristnogol yn dysgu ei bod yn ddyletswydd grefyddol i ofalu am y cleifion. Fel arfer roedd gan fynachlogydd a lleiandai glafdai (*infirmaries*), a oedd yn rhyw fath o ward ysbyty o dan ofal y preswylwyr. Yna gallai mynachod a lleianod, yn ogystal â phobl dlawd neu deithwyr a oedd wedi cael eu taro’n wael, gael eu trin. Roedd y clafdy’n tueddu i fod ar wahân i’r prif adeiladau, er mwyn osgoi haint ac i atal teithwyr rhag siarad â’r mynachod a’u llygru. Felly’r oedd hi yn Abaty Margam yn Ne Cymru.

Yn y 12fed ganrif dechreuodd yr Eglwys Gristnogol sefydlu ysbytai, oedd yn cael eu rhedeg gan fynachod a lleianod. Daeth y gair ‘hospital’ o’r ffaith eu bod yn rhoi ‘hospitality'. Crëwyd bron i 1200 o’r llefydd hyn yng Nghymru a Lloegr yn y canol oesoedd.

Enwyd Ysbyty Ifan ar ôl Sant Ioan, a chafodd yr enw hwn yn 1190 ar ôl iddo ddod i sylw Marchogion Sant Ioan, urdd o Hospitalwyr, a oedd wedi ymrwymo i warchod pererinion ar eu ffordd i’r Wlad Sanctaidd ac ar deithiau crefyddol.

Fe ddewison nhw sefydlu ysbyty a hostel i ofalu ar ôl pererinion yn Ysbyty Ifan gan ei fod wedi’i leoli ar sawl un o hen ffyrdd y pererinion, yn cynnwys Bangor Is-Coed a Threffynnon yn y gogledd-ddwyrain, ac Ynys Enlli oddi ar drwyn Penrhyn Llŷn.

| Thema | Gofal cleifion ac iechyd y cyhoedd |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Rôl elusennau gwirfoddol ac ysbytai gwaddoledig |
| **Persbectif Cymreig** | Rhagoriaeth ysbytai gwirfoddol ar draws Cymru, yn eu plith rhai arbenigol fel Ysbyty Morwyr Stanley, Caergybi, 1871 ac Ysbyty Morwyr Hamadryad, Caerdydd o'r 1860au |

Agorwyd Ysbyty Morwyr Stanley yn 1871. Fe'i hadeiladwyd ar Ynys Halen ar gost o £1,170. I ddechrau dim ond morwyr oedd yn cael eu trin yno ond yn ddiweddarach datblygodd yn ysbyty cyffredinol. Fe'i cymerwyd drosodd gan y GIG yn 1948 a chaeodd yn 1987. Roedd yn brysur iawn yn ystod rhyfeloedd yr 20fed ganrif. Bu cannoedd o gleifion o bob rhan o'r byd drwy'r ysbyty yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn ogystal â nifer fawr o staff. Roedd nifer o'r nyrsys yn dod o Fintai Cymorth Gwirfoddol (*Voluntary Aid Detachment neu VAD*) y Groes Goch.

Yr Hamadryad oedd Ysbyty Morwyr cyntaf porthladd Caerdydd. Roedd Dr Paine, swyddog meddygol iechyd Caerdydd o 1855 tan 1887, yn pryderu'n fawr fod morwyr yn dod ag afiechydon heintus fel colera, y frech wen a theiffoid i mewn i'r dociau lle y gallent ledaenu i Gaerdydd ei hun.

Mewn cyfarfod cyhoeddus ym mis Mawrth 1866, cynigiwyd dod â llong ysbyty i mewn i'r dociau. Cytunwyd ar y syniad hwn, a chynigodd y Morlys roi benthyg yr hen ffrigad *Hamadryad* fel canolfan i'r ysbyty.

Cyrhaeddodd Yr Hamadryad o Devonport ac fe'i troswyd yn llong ysbyty. Yn ogystal â gwelyau a wardiau i gleifion, darparwyd llety hefyd i arolygydd meddygol, metron a nifer o nyrsys.

Cafodd ei hangori yn wreiddiol yn noc Gorllewin Bute, ond yna symudwyd yr Hamadryad i ddarn o dir gwastraff, a gyfrannwyd gan Farcwis Bute. Yn anffodus, enw'r tir oedd *Rat Island*. Wedi cwblhau'r addasiadau, agorodd yr Hamadryad fel ysbyty ar 1 Tachwedd 1866 a Mr Vavasour oedd yr arolygydd meddygol cyntaf.

Yn y flwyddyn gyntaf cafodd dros 400 o gleifion eu trin, y rhan fwyaf ohonyn nhw o longau yn Noc Caerdydd ond rhai o lefydd fel Abertawe a'r Barri. Yn ystod oes yr Hamadryad, cafodd miloedd o forwyr - a phobl oedd yn byw gerllaw - eu helpu.

**Polisi dim menywod**

Cafodd morwyr o bob cenedl eu trin yn yr ysbyty, naill ai fel cleifion dydd neu yn aros yno. Yn 1897, adroddodd Dr Hughes, yr arolygydd meddygol ar y pryd, fod 379 o bobl wedi cael eu derbyn tra bod llawer mwy wedi cael triniaeth am anafiadau ac fel cleifion dydd. Yn ddiddorol, er bod dynion o bob cenedl yn cael eu derbyn, nid oedd unrhyw fenywod yn cael eu caniatáu - na chwaith unrhyw un oedd yn dioddef o sgabies neu lau.

Wedi cyrraedd, roedd y cleifion i gyd yn cael bath a thorri eu gwallt ac yna'n cael dillad ysbyty. Roedd hwn yn arfer a barhaodd hyd at yr 20fed ganrif.

| | |
|---|---|
| **Thema** | **Gofal cleifion ac iechyd y cyhoedd** |
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Nyrsio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg |
| **Persbectif Cymreig** | Betsi Cadwaladr – nyrsio milwrol yn ymateb i'r amodau anhylan a'r fiwrocratiaeth yn ystod Rhyfel y Crimea |

Ganwyd Betsi Cadwaladr yn y Bala, Gogledd Cymru, yn 1789, yn un o 16 o blant. Roedd ei thad yn Weinidog Methodistaidd.

Oherwydd ei bod hi eisiau gweld y byd, rhedodd i ffwrdd o gartref yn 14 oed, gan deithio i Lerpwl ac yna i Lundain. Rhwng 1815 ac 1820 bu'n gwasanaethu fel morwyn i gapten llong ac ymwelodd â llefydd yn Ne America, Affrica ac Awstralia.

Wedi dychwelyd i Lundain hyfforddodd fel nyrs ac yn 1854, yn 65 oed, aeth i'r Crimea i helpu i nyrsio milwyr oedd wedi'u clwyfo.

Dangosodd y byddai'n fodlon gwneud unrhyw beth i wella ansawdd y gofal a gâi'r cleifion oedd dan ei gofal. Nid oedd yn hoff o gwbl o'r fiwrocratiaeth a sefydlwyd gan Florence Nightingale; roedd hynny'n amddifadu'r milwyr clwyfedig o fwyd, dillad a rhwymynnau hyd yn oed. Gan nad oedd hi'n gyrru ymlaen gyda Florence Nightingale, symudodd o'r ysbyty yn Scuteri y Balaclava; roedd yn glanhau clwyfau ac yn newid rhwymynnau, yn gweithio o 6 y bore tan 11 y nos.

Pan welodd Florence Nightingale yr hyn roedd Betsi wedi'i gyflawni yn Balaclava, penderfynodd fabwysiadu ei ffordd hi o wneud pethau. Aeth Betsi ymlaen i weithio yn y Crimea nes i'r rhyfel effeithio ar ei hiechyd hithau a'i tharo â'r colera a'r dysentri. Gadawodd y Crimea yn 1855 (a hithau'n 66 oed). Bu farw yn 1860. Mae Bwrdd GIG Betsi Cadwaladr yng Ngogledd Cymru yn coffau ei gwaith.

| | |
|---|---|
| **Thema** | **Gofal cleifion ac iechyd y cyhoedd** |
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Aneurin Bevan a sefydlu'r GIG |
| **Persbectif Cymreig** | Aneurin Bevan dan ddylanwad ei gefndir yn Ne Cymru |

Erbyn 1944 roedd y system iechyd genedlaethol newydd yn cael ei chynllunio, ac yn dilyn ethol Llywodraeth Lafur yn 1945, penodwyd Aneurin Bevan, AS Llafur dros Lyn Ebwy, yn Weinidog Iechyd.

Her gyntaf Bevan oedd argyhoeddi'r cyhoedd fod angen creu gwasanaeth iechyd gwladol. Ei ddadl ef oedd bod gan bawb yr hawl i driniaeth feddygol yn ôl angen, wedi cyfrannu at gynllun yswiriant iechyd. Byddai pawb yn cael eu trin yr un fath, p'un ai eu bod yn gyfoethog neu'n dlawd. Roedd eisiau creu gwasanaeth iechyd a oedd yn gofalu am bobl 'o'r crud i'r bedd'.

Roedd Bevan wedi'i eni yn Nhredegar lle'r oedd Cymdeithas Cymorth Meddygol Gweithwyr Tredegar wedi cael ei sefydlu er mwyn darparu cymorth meddygol a thriniaeth ysbyty am ddim os oedd rhywun yn cyfrannu tanysgrifiad wythnosol bychan.

Cafodd Bevan dipyn o wrthwynebiad, yn bennaf gan y Gymdeithas Feddygol Brydeinig, nad oedd eisiau cael eu rheoli gan y llywodraeth. Roedd Bevan, fodd bynnag, yn berswadiol iawn ac yn y diwedd enillodd y proffesiwn meddygol drosodd i'w syniadau ef.

| **Thema** | **Gofal cleifion ac iechyd y cyhoedd** |
|---|---|
| **Canolbwynt y Cynnwys** | Gwelliannau ym maes iechyd y cyhoedd yn ystod oes Fictoria |
| **Persbectif Cymreig** | Sir Henry de la Beche 1844 Adroddiad ar Amodau ym Merthyr<br>Adeiladu cronfeydd dŵr yng Nghymru o'r 1860au |

Yn 1844, dywedodd Sir Henry De La Beche, wrth adrodd ar Ferthyr Tudful:

"Nid oedd cyflenwad dŵr - roedd rhai toiledau yn yr ychydig dai da, ond dim yn y bythynnod. Roedd trochion a sbwriel yn cael eu taflu ar y ffyrdd a'r strydoedd, oedd heb eu tarmacio, ac ar domenni o ludw glo ym mhob man.
Roedd yna nifer fawr o dlodion fel y gwelir gan y ffaith fod rhwng 6,000 a 7,000 o bobl, allan o boblogaeth o 37,000 (un o bob chwech), yn cael eu hesgusodi rhag talu treth y tlodion bob blwyddyn."

"Mae nifer fawr o fythynnod gyda dwy ystafell yn unig, y llofft yw lle cysgu'r teulu, ac fel arfer heb fawr o awyru. Yn ôl Mr Davies, arolygydd heddlu Merthyr Tudful, yn y tai dwy lofft hyn lle mae'r gweithwyr yn byw, mae yna dri gwely fel arfer yn y lle cysgu, i bump neu chwech o bobl. Mae'r bythynnod hyn yn aml yn fach iawn, 8 troedfedd gan 10 troedfedd gan 12 troedfedd yn eithaf cyffredin".

"Rhan waethaf tref Merthyr Tudful oedd ardal a oedd yn cael ei adnabod fel 'Y Selerydd', lle'r oedd 1500 o bobl yn byw mewn amodau cyfyng ac afiach. Mae'r amodau byw hyn yn cynnwys tai bychan deulawr, wedi'u lleoli mewn pant rhwng llinell o ffordd a thomen ludw... ... Mae'r gofod rhwng y tai hyn yn gyfyng iawn fel arfer; ac mae cwter agored, ddrewllyd, a bron yn llonydd, lle mae gwastraff y tŷ fel arfer yn cael ei luchio i mewn, yn symud yn araf o flaen y drysau. Mae'n ddrysfa o fflatiau diflas ac mae'n fochynnaidd.

Daw'r Adroddiad i'r casgliad:

"Gellir edrych ar Ferthyr Tudful, gyda Phenydarren a Dowlais, fel tref fythynnod yn bennaf heb ofal cyhoeddus am gyflenwad dŵr, draenio, neu lanhau; natur agored ac uchder bychan ei hadeiladau gwasgarog, sy'n agored i'r haul a'r awyr, ac felly'n arbed y boblogaeth rhag drygau hyd yn oed yn waeth na'r rheiny y maen nhw'n agored iddynt ar hyn o bryd oherwydd y budreddi sydd mor amlwg yma."

Roedd yr anawsterau i gael dŵr ym Merthyr Tudful yn broblem arbennig. Roedd yn rhaid i bobl giwio amdano wrth sbowtiau dŵr yn y stryd. Weithiau byddai gwragedd yn ciwio am hyd at ddeg awr ar y pryd i gael eu tro ac yna byddai rhai'n gorfod gadael heb unrhyw ddŵr o gwbl.

Heb iechydaeth iawn na chyflenwad dŵr glân a rheolaidd, arweiniodd yr amodau aflan yn rhan dlotaf Merthyr Tudful at donnau o epidemigau o'r colera a'r teiffoid yn llifo drwy'r dref yn hanner cyntaf y 19eg ganrif.